

YSGOL GYNRADD NEFYN

Annwyl Rieni,

Croeso atom ar ôl gwyliau`r Haf.

Cofiwch fod croeso ichi alw yn yr ysgol unrhyw amser am sgwrs os oes rhywbeth yn eich poeni (rhwng 8:00a.m. a 9:00a.m. neu rhwng 3:30p.m. a 4:30 p.m.)

Welcome back to everyone following the Summer holidays.

Remember that you are welcome to call at the school for a chat if there is anything worrying you (between 8:00a.m. and 9:00a.m. or between 3:30p.m. and 4:30p.m.)

Arian Cinio a Snac / Snack and lunch Money

Byddwn yn derbyn arian cinio a snac am yr wythnos **bob dydd Llun** yn unig eleni. (arian fydd yn ddyledus am yr wythnos honno) Hyderwn y bydd y drefn yma yn osgoi unrhyw ddryswch a dyledion.

Cost snac am yr wythnos i ddisgyblion llawn amser - £1

Cost snac am yr ywthnos i ddisgyblion rhan amser (Meithrin) – 50c

1 cinio - £1.75 - 1 lunch

2 ginio - £3.50 - 2 lunches

3 cinio - £5.25 - 3 lunches

4 cinio - £7.00 - 4 lunches

5 cinio - £8.75 - 5 lunches

*We will accept lunch and snack money **every Monday only** this year.*

(money owing for that week) We hope this arrangement will avoid any confusion and arrears.

1 week`s snack money - £1

Nursery Class - 1 week`s snack money – 50p

Clwb Brechwast /Breakfast Club

Mae croeso i`ch plentyn fynychu`r Clwb Brechwast yn neuadd yr ysgol bob bore. Darperir grawnfwyd, tôst a sudd oren neu afal i`r plant yn rhad ac am ddim rhwng 8:10a.m. ac 8:50a.m.

Your child is welcome to attend The Breakfast Club in the school hall every morning.

Cereal, toast, orange or apple juice are prepared free of charge between 8:10a.m. and 8:50a.m.

Gwisg Ysgol / School Uniform

Mae llawer o ddillad plant wedi eu gadael yn yr ysgol. Os oes dilledyn yn perthyn i`ch plentyn ar goll mae cyfle ichi alw yn yr ysgol brynhawn Gwener yma i gael golwg ar y dillad sydd yma. (Ymhen pythefnos byddwn yn ail-gylchu y dilladau hyn).

Gofynnwn yn garedig ichi roi enw`ch plentyn ar **bob dilledyn** o heddiw ymlaen.

There is a collection of children`s clothes left behind in the school.If your child has lost any item of clothing there will be an opportunity for you to view the clothes this Friday afternoon. (We will be re-cycling the clothes in a fortnight).

*Could you please make sure your child`s name is on **every garment** from today onwards.*

Gwersi Addysg Gorfforol / Physical Education Lessons

I sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn cael cymeryd rhan yn y gwersi Addysg Gorfforol gofynnwn yn garedig iddynt ddod a dillad addas (trowsus cwta, crys-t ac esgidiau addas mewn bag) i'r ysgol ar ddydd Llun a'u dychwelyd adref ar ddydd Gwener.

To ensure that your child is able to participate in the Physical Education lessons we kindly ask them to bring suitable clothes (short trousers, t-shirt and suitable footwear in a bag) to school on Monday and return home on Friday.

Gwaith Cartref / Homework

Gan fod trefn Gwaith Cartref yn amrywio o ddosbarth i ddosbarth mae croeso ichi holi'r athrawes a'ch plentyn i gael gwybod beth yw trefn arbennig y dosbarth y mae'n ei fynychu / mynychu. Diolch am eich cefnogaeth a'ch diddordeb yng Ngwaith Cartref eich plant.

As Homework arrangements vary from class to class you are welcome to contact the teacher and speak to your child about the arrangements of your child's class. Thank you for your support and interest in your child's homework.

Disgyblion yn absennol / Pupils absent from school

Hoffwn eich atgoffa fod angen galwad ffôn neu lythyr yn egluro absenoldeb eich plentyn (salwch neu wyliau teulu – Mae hawl gan rieni i 10 diwrnod ysgol o wyliau yn ystod y flwyddyn).

Just to remind you that a phone call or a letter is needed to explain why your child is absent from school (illness or family holidays – Parents have the right to take their children out of school for 10 days holidays during the school year).

Ysgol ar gau i'r disgyblion / School closed for pupils

Bydd yr ysgol ar gau i'r disgyblion ar ddydd Gwener, Hydref 17eg oherwydd bod diwrnod hyfforddiant i'r athrawon.

The school will be closed on Friday October 17th as it will be a training day for the teachers.

Gwyliau Hanner Tymor / Half Term Holidays

Dydd Gwener Hydref 24ain – Ysgol yn cau am y gwyliau

Dydd Llun Tachwedd 3ydd – Ysgol yn ail agor.

Friday October 24th – School closes for the holidays

Monday November 3rd – School re-opens.

Pwysig – Ffurflen Caniatâd / Important – Permission Form

Byddem yn ddiolchgar o dderbyn y ffurflenni caniatâd amgaedig wedi eu harwyddo cyn gynted ag sydd bosibl.

We would appreciate the return of the enclosed forms, signed, as soon as possible.

Yr eiddoch yn gywir